**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2017**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Y Cynghorydd Bobby Feeley – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 8 ar y Rhaglen. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | YSGOL GATHOLIG 3-16 ARFAETHEDIG YN Y RHYL | ***RESOLVED*** *that Cabinet –*<br><br>*(a) cymeradwyo i symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar gynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Mair ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019 ac agor Ysgol Gatholig 3-16 ar yr un safle ar 1 Medi 2019 ac*<br><br>*(b) argymell cymeradwyo cyllid er mwyn dechrau ar y cam cysyniad/ dylunio manwl.* |
| **6** | DIWYGIADAU I ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo newidiadau i ddrafft Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gofynion ar gyfer - –*<br><br>*a) safle Sipsiwn a Theithwyr preswyl yn Sir Ddinbych, sy'n cynnwys 6 chae i ddiwallu anghenion aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn y sir, a*<br><br>*b) safle teithiol ar gyfer 4-5 cae i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n teithio drwy'r sir.* |
| **7** | CYNLLUNIAU CYMUNEDOL YN Y CYNGOR NEWYDD | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cytuno nad yw'r Cynlluniau Tref ac Ardal ar gyfer pob ardal Grŵp Ardal Aelodau yn y* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Cyngor yn ofynnol mwyach, a*<br><br>*(b) bod y system newydd o gynllunio cymunedol a ddisgrifir yn yr adroddiad yn cael ei fabwysiadu.* |
| **8** | ADRODDIAD AR Y DEWISIADAU AR GYFER Y DEFNYDD O GARTREF GOFAL PRESWYL AWELON YN Y DYFODOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cadarnhau eu bod wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'u hystyriaethau;*<br><br>*(b) cytuno nad yw Opsiynau 1 a 3b Astudiaeth Ddichonoldeb Grŵp Cynefin yn ddewisiadau ymarferol am y rhesymau a nodir yn atodiadau 1 a 5 yn y drefn honno;*<br><br>*(c) cytuno bod trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng Aelodau lleol, Swyddogion, Grŵp Cynefin a phwyllgor Canolfan Awelon i weithio drwy Opsiynau 2a, 2b a 3a i symud ymlaen gyda'r cyfluniad gorau ar gyfer y safle sy'n diwallu anghenion pob parti ac yn golygu'r amhariad lleiaf ar breswylwyr/ tenantiaid presennol, a*<br><br>*(d) gofyn i swyddogion weithio gyda chynrychiolwyr o'r grwpiau cymuned sy'n defnyddio Canolfan Awelon ar hyn o bryd, er mwyn nodi cyfleusterau amgen addas iddynt eu defnyddio yn ystod y broses adeiladu.* |
| **9** | GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2017/18 | ***RESOLVED*** *that –*<br><br>*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2017/18 (Atodiad 1 yn yr adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2);;*<br><br>*(b) cynyddu rhenti anheddau Cyngor yn unol â chanllawiau Polisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015 i £81.77 yr wythnos ar gyfartaledd o ddydd Llun 3 Ebrill 2017; a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) chynyddu rhenti ar gyfer garejis y Cyngor yn unol â'r cynnydd mewn rhenti am anheddau Cyngor i £6.85 ar gyfer Tenantiaid y Cyngor a £8.22 ar gyfer Tenantiaid eraill.* |
| **10** | ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD** bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf 2017/18 yn cael eu cefnogi a'u hargymell i'r Cyngor llawn..* |
| **11** | CYLLIDEB 2017/18 – CYNIGION TERFYNOL | ***RESOLVED** that Cabinet –*<br><br>*(a) nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2017/18;*<br><br>*(b) cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cyd-fynd â'r tybiaethau a gyflwynwyd i aelodau yng ngweithdy'r gyllideb a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2016, a gan hynny'n eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn cwblhau cyllideb 2017/18, ac*<br><br>*(c) argymell i'r Cyngor, mai'r cynnydd cyfartalog mewn Treth y Cyngor sydd ei angen i gefnogi'r gyllideb yw 2.75%.* |
| **12** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) cymeradwyo trosglwyddo £1m o'r gyllideb Gorfforaethol ac Amrywiol i Gronfa Lliniaru'r Gyllideb er mwyn hwyluso cyflawniad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) sydd angen £1m o gyfraniad arian parod ychwanegol ar gyfer 2018/19 er mwyn lliniaru a lleddfu effeithiau'r gostyngiadau a ragwelir mewn cyllid dros nifer o flynyddoedd, ac* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) wedi ystyried argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol o ran prosiect Ysgolion yr 21ain ganrif Ysgol Llanfair, bod y Cabinet yn –*<br><br>• *cefnogi cyflwyno Achos Busnes ar gyfer adeilad ysgol newydd i Ysgol Llanfair (Atodiad 5) ger bron Llywodraeth Cymru*<br>• *cymeradwyo'n ffurfiol y gyllideb gyffredinol o £5.369m fel y manylir yn yr achos busnes*<br>• *cefnogi mewn egwyddor pryniant arfaethedig y tir yn Llanfair i hwyluso datblygiad yr ysgol newydd.* |
| **13** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet*. |
| **14** | MEDDIANNU AR FANTEISION CYFAMODAU CYFYNGOL AR RODFA'R DWYRAIN, Y RHYL I HWYLUSO DARPARIAETH Y CAM LLETYGARWCH ARFAETHEDIG O'R DATBLYGIAD GLAN Y MÔR | ***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cyngor feddiannu ar y cyfamodau cyfyngu sy'n rhedeg â'r tir fel a ddangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.* |
| **15** | TIR YN TIRIONFA, FFORDD GALLT MELYD, RHUDDLAN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo –*<br><br>*(a) datgan bod y tir glas ( fel y manylir yn Atodiad 1 ynghlwm wrth yr adroddiad) yn weddill i anghenion y Cyngor a chael gwared ohono ar y farchnad agored;*<br><br>*(b) llunio Cytundeb Perchnogaeth Tir gyda pherchennog y tir coch (fel y manylir yn Atodiad 1 ynghlwm wrth yr adroddiad) a rhyddhau'r cyfamod ar y tir coch sy'n eiddo i drydydd parti yn gyfnewid am hawl tramwy dros y tir coch a fydd o fudd i'r tir glas a melyn sy'n eiddo i'r Cyngor, a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) chael gwared ar y tiroedd coch, gwyrdd a glas (fel y manylir yn Atodiad A ynghlwm wrth yr adroddiad) ar y cyd gyda'r perchennog cyfagos a bydd y Cyngor yn derbyn 66.05% o elw net y gwerthiant, yn dilyn tynnu costau cytunedig ar gyfer sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer y tir coch a glas yn unig.* |
| **16** | BOD YNYS FARM, RHEWL RHUTHUN | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo datgan Bod Ynys Farm, fel a ddangosir gydag amlinelliad coch ar y cynlluniau yn Atodiad A sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn weddill i anghenion ac yn cymeradwyo cael gwared ar y fferm.* |